

Y gorllewin ar ei orau:

Pam cerdded y llwybr hwn?
...oherwydd ei dirwedd.

Dyma gyfle gwych i brofi gwlad agored a chyfoethog Penrhyn Llŷn o un o'i nodweddion mwyaf hynod a phwysig - ei harfordir. Cewch werthfawrogi ysblander tirwedd amrywiol yr arfordir wrth ddilyn y llwybr troellog hwn. Mae yma gilfachau bychain ac eangderau tywod, clogwyni geirwon, moroedd orïog, porthladdoedd bach a rhostiroedd gwyllt yn eich disgwyl. Dyma orllewin Prydain ar ei orau sy'n llawn haeddu ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

The west at its best:

Why take this route?
...because of its landscape.

Here is a golden opportunity to experience the open and rich country that is the Llŷn Peninsula from one of its most important and remarkable features - its coast. You can enjoy the splendour of the diverse coastal landscape by following this winding route. There are small coves and wide expanses of sand, rugged cliffs, ever changeable seas, small harbours and wild heathland awaiting your exploration. This is western Britain at its best, which fully deserves its designation as an Area of Outstanding Natural Beauty.

Llygad Ilo mawr/Ox-eye daisies



Bae Caernarfon Bay

...oherwydd ei ddiwylliant a'i hanes...

Dyma gyfle gwych i gerdded yn ôl traed y pererinion cynnar a phrofi bro sydd â diwylliant a hanes yn ddwfn yn ei phridd. Cewch werthfawrogi olion sydd yn dangos dulliau byw pobl o gyfnodau cyn-hanesyddol hyd heddiw. Mae ôl gwaith trigolion yr Oesoedd Cerrig, Efydd a Haearn i'w weld ar hyd y ffordd a llaw y Cristnogion cynharaf yn yr eglwysi hynafol. Dylanwad pysgotwyr a ffermwyr y canrifoedd sydd yn amlwg ar y tirwedd, y cartrefi a'r adeiladau. Dyma un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg ac mae traddodiadau Cymreig yn dal yn fyw yma.

Traeth Graig Ddu/Black Rock sands

...because of its culture and history...

Here is a golden opportunity to walk in the footsteps of the early pilgrims and experience these parts with history and culture deep in the soil. You can see remains that show how people from pre-historic to recent times lived. Signs left by Stone, Iron and Bronze age residents are to be seen along the way and the earliest Christians built the numerous ancient churches. The influence of fishermen and farmers along the centuries is clear from the landscape, the homes and the buildings. This is one of the strongholds of the Welsh language and Welsh traditions are still alive here today.

...oherwydd ei fywyd gwylt...

Dyma gyfle gwych i brofi gwlad gyforiog o rywogaethau o bob math. Cewch werthfawrogi yr anifeiliaid a'r planhigion amlwg ond hefyd y rhai anoddach eu gweld wrth chwilota ar hyd llwybr yr arfordir. Mae brain coesgoch yn aml wrthi'n gwneud campau yn yr awyr a gall morloi llwyd fod yn gymdeithion ffyddlon ar hyd rhannau o'r daith. O gerdded yn y gwanwyn cewch y clustog Fair a serenog y gwanwyn wrth ymyl rhai rhannau o'r llwybr ond yn yr haf, clytia o rug porffor ymysg llwyni melyn yr eithin sydd yn gefndir lliwgar mewn rhannau eraill. Yma mai rhai o drysorau naturiol gorau arfordir Prydain.

...because of its wildlife...

Here is a golden opportunity to experience a countryside rich in a whole range of species. By exploring along this coastal footpath you may enjoy plants and animals some of which are easy to see and others are more difficult. Choughs frequently cavort in the air and grey seals can be faithful companions along parts of the route. If you walk in the spring, thrift and spring squill border some of the path but in the summer patches of purple heather dotted amongst yellow gorse bushes make a colourful backdrop to other stretches of the route. Here are some of the best natural gems that the coast of Britain can offer.

Cloch yr eos/Harebells

Eglwys St. Beuno, Clynog Fawr/St. Beuno Church, Clynog Fawr



Gwylog/Guillemots



Rhai Mannau o Ddiddordeb ar y Llwybr

1 Lôn Eifion (map 1/2)

Llwybr 20km i gerddwyr a beicwyr a adeiladwyd ar wely yr hen reilffordd a arferai redeg i Afon Wen. Rhan o rwydwaith ehangach o Lonydd Glas. A 20km pedestrian and cycle path built on the former railway that once ran to Afon Wen. Part of a wider network of Lonydd Glas - off road recreational routes.

2 Eglwys Sant Beuno, Clynnog Fawr St Beuno's Church, Clynnog Fawr (map 2/3)

Sefydlwyd yr eglwys wreiddiol gan St Beuno tua'r flwyddyn 630, daeth yn brif ganolfan eglwysig yn ystod oes y bererindod i Ynys Enlli. The original church was founded by St Beuno around the year 630, and became an ecclesiastical centre of great importance during the age of the pilgrimages to Bardsey Island.

3 Tre'r Ceiri (map 3)

Caer fu ar ddefnydd rhwng 100CC a 400CC gyda olion tua 150 o gytaiau crynion. Hill fort occupied from about 100BC to 400AD with the remains of over 150 hut circles.

Grug/Heather

Some Places of Interest along the Path

4 Eglwys Pistyll Church (map 3)

Un o eglwysi a sefydlwyd gan St Beuno, roedd yn adnabyddus am gynnig triniaeth feddygol i'r pererinion ar y daith i Enlli. One of the churches established by St Beuno, it was renowned for the medical care of pilgrims whilst they journeyed to Bardsey.

5 Porth Dinllaen (map 4)

Bu'n borthladd prysur a phwysig yn ystod oes y llongau hwyliau. Roedd bwriad ar un adeg i ddatblygu Porth Dinllaen fel y prif borthladd ar gyfer masnachu gyda'r Iwerddon. A once busy and important port during the days of sailing ships. Porth Dinllaen was once considered for development as the main port for trade with Ireland.

6 Porth Ysgaden (map 4)

Un o nifer o borthladdoedd bach gogledd Llŷn. Mae olion yr odyn galch yn dangos bu'n le prysur ar un adeg. Mae'n parhau i gael ei ddefnyddio gan bysgotwyr lleol. One of the many small bays along the north coast of Llŷn. The remains of the limekiln shows it was once busy. Porth Ysgaden remains popular with local fishermen.

Eglwys St Beuno/St Beuno's Church, Pistyll



7 Porthor & Mynydd Carreg (map 5)

Tir ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r enw Saesneg am draeth Porthor, "Whistling Sands" yn cyfeirio at y tywod sy'n fod i chwibanu. Land owned by the National Trust. Porth Oer beach is famous for its whistling sands.

8 Mynydd Mawr (map 5)

Gwelir Ynys Enlli o'r wylfan wrth hen gaban gwylwyr y glannau. Ychydig uwchben creigiau'r môr mae olion Eglwys Fair gyda ffynnon Fair gerllaw. See Bardsey Island from the viewpoint by the old Coastguard station. The remains of St Mary's Church are seen above the sea cliffs and St Mary's Well is nearby.

9 Aberdaron (map 5)

Yn y Gegin Fawr arferai'r pererinion gael pryd cyn cychwyn ar ran olaf eu taith i Enlli. Gerllaw mae eglwys St Hywyn, adeilad urddasol sy'n dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol. Before the final leg of their journey to Bardsey, pilgrims received sustenance at y Gegin Fawr. The nearby church of St Hywyn's is a noble building dating back to the middle ages.

10 Eglwys Llandegwning Church (map 6)

Eglwys sy'n arbennig am ei thwr crwn math 'pot pupur'. The church is noteworthy for its round "pepper pot tower".

11 Llangian (map 6)

Yn y fynwent gellir gweld carreg fedd Melitus y meddyg ag ysgrifen Lladin arni sy'n dyddio'n ôl i'r 6ed ganrif. The churchyard contains the Latin inscribed gravestone of Melitus the Medic that dates to the 6th century.

12 Pentref Llanengan Village (map 6)

Ger y pentref gellir gweld olion y gweithfeydd plwm fu'n cael eu gweithio hyd at ddiwedd y 19eg ganrif. Remains of lead mines that were working up to the end of the 19th century can be seen on the outskirts of the village.

13 Lôn Goed (map 8)

Crëwyd y lôn yn wreiddiol i gludo calch a nwyddau eraill i ffermydd Eifionydd yn yr 18ed ganrif. The roadway was originally constructed during the 18th century to transport lime and other goods to the farms of Eifionydd.

14 Castell Criccieth Castle (map 8)

Nodwedd amlycaf a mwyaf trawiadol y dref yw'r castell a adeiladwyd gan Llywelyn Fawr oddeutu 1230. The castle built by Llywelyn the Great around 1230 dominates the town's skyline.

Castell Criccieth/Criccieth Castle



Disgrifiwyd Eryri yn y 'Rough Guide to Wales' fel 'y rhanbarth mwyaf dramatig a hudol yng Nghymru'. Eryri yw un o'r prif gyrchfannau yng Ngwledydd Prydain ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Dringo, cerdded mynyddoedd, beicio mynydd, canwio, hwylio kayak, paragleidio, môr-fyrddio, deifio, hwylyddio-beth bynnag y byddwch chi'n chwilio amdano mewn gwyliau antur, mae digonedd o bethau ar gael yma.

Beicio yn Eryri

Ydych chi'n chwilio am wyliau beicio yn Eryri? Mae llawer o lyfrynau ar gael sy'n cynwys gwybodaeth am bopeth o lwybrau beicio tawel a gwastad, i feicio mynydd anturus. Ceir awgrymiadau am deithiau a manylion am logi beiciau siopau trwsio beiciau.

Cerdded yn Eryri

Mae amrywiaeth o lyfrynau a thafenni ar gael sy'n rhoi manylion am lwybrau cerdded ar Benrhyn Llŷn, Parc Cenedlaethol Eryri ac arfordir Bae Ceredigion.

Gweithgareddau a Digwyddiadau

Mae'r ardal yn llawn gweithgareddau ar gyfer pob oed a chwaeth. Mae'r llyfryn yn rhoi manylion am bysgota, dringo, chwaraeon dŵr, abseilio a llawer mwy. Mae gwybodaeth ar gael am ganolfannau gweithgareddau cynabyddiedig ac atyniadau gwahanol i ymwelwyr.

Described by the Rough Guide as 'the most dramatic and alluring region in Wales', Snowdonia is also one of the main adventure destinations in the British Isles for outdoor activities. Climbing, hill walking, mountain biking, canoeing, kayaking, paragliding, surfing, diving, windsurfing - whatever you look for in an adventure holiday, you will find it here in abundance.

Cycling in Snowdonia

Looking for a cycling holiday in Snowdonia?

There are many brochures available covering everything from gentle lowland cycle paths to adventurous mountain biking. Details contain suggested routes and details of cycle hire and repair shops.

Walking in Snowdonia

There are a range of guides and leaflets available detailing walking routes in the Llŷn Peninsula, Snowdonia National Park and the Cambrian Coastline.



Adar drycin y graig/Fulmers

Activities and Events

The area is packed with activities for all ages and interests. The guide provides details on fishing, climbing, water sports, abseiling and much more. Information is available on accredited activity centres and visitor attractions in the area.

Cyngor Gwynedd Council

Am gopiâu o'r llyfrynau uchod, ffoniwch (01341) 423 558 (24 awr) gan ddyfynnu cyfeirnod CGST a nodi pa gyhoeddiad(au) y dymunwch eu cael, neu ymweld â gwefan: www.ymweldageryri.info

To receive copies of the above guides please telephone (01341) 423 558 (24hr) quoting reference CGST indicating which publication(s) you would like to receive, or visit the website: www.visitsnowdonia.info